

Y SGRIN ARIAN YN DOD I BENWYTHNOS BRENHINOL Y RHYL



MAE sinema leiaf y byd yn mynd i lanio mewn tref yng Ngogledd Cymru fel rhan o ddathliadau pen-blwydd EM y Frenhines yn 90 oed.

Bydd y sinema fach, sy'n gweithio â phŵer yr haul ac sy'n eistedd 8 ar y tro, yn dod i'r Rhyl i helpu nodi'r achlysur arbennig.

Gan ddangos hen ffilmiau o'r dref ynghyd â ffilmiau byrion, annibynnol, bydd y sinema yn rhad ac am ddim i ymwelwyr a siopwyr pan fydd yn cyrraedd ar ddydd Sadwrn Mehefin 11. Mae'r digwyddiad, sydd hefyd yn cynnwys jiwcbocs dynol, helpa drysor, cystadleuaeth gwisg ffansi tywysog a thywysoges a thrên â thema 'frenhinol' yn rheilffordd fach y dref, wedi cael ei drefnu gan Gyngor Tref y Rhyl.

Meddai'r Cyngorydd Barry Mellor, Maer y Rhyl: "Dros y 12 mis nesaf byddwn yn dod â digwyddiadau gwahanol i'r Rhyl, gan gynnwys cymaint ag y bo modd o'r dref, gyda'r penwythnos 'Brenhinol' yn cael ei gynnal mewn nifer o leoliadau gwahanol. Mae'r sinema yn rhywbeth o gwlt, ar ôl ymddangos mewn gwyliau ar hyd a lled y DU felly rydym wrth ein boddau yn ei chroesawu i'r Rhyl am y tro cyntaf."

Dyma'r digwyddiad cyntaf mewn cyfres sydd wedi ei threfnu gan y cyngor tref dros y 12 mis nesaf. Mae penwythnos cefn gwlad, gŵyl gymunedol a chalendr adfent byw ar y gweill, ynghyd â phrosiectau a mentrau i helpu cymunedau'r Rhyl.



Ychwanegodd y Cynghorydd Mellor: “Mae llawer o adfywio a datblygu wedi ei gynllunio ar gyfer y dref, a byddwn yn ddi-os yn gweld newidiadau dros y misoedd i ddod. Yn y cyfamser, rydym eisiau cynnig rhywbeth newydd a ffres i bobl a theuluoedd y Rhyl a chysylltu â busnesau a grwpiau cymunedol beth bynnag yw eu lleoliad yn y dref. Gam wrth gam, rydym hefyd yn gobeithio denu pobl i ddod yn ôl atom.”

Bydd y Penwythnos Brenhinol yn rhedeg o 11am – 4pm gyda gweithgareddau mewn nifer o leoliadau.

- Bydd y Sol Cinema ar y Stryd Fawr
- Bydd y Jiwcbocs Dynol, lle gall aelodau’r cyhoedd ddewis trac i’w ganu neu ei chwarae iddynt, y tu allan i Neuadd y Dref, oddi ar Queen Street
- Cynhelir yr Helfa Drysor mewn nifer o leoliadau trwy’r dref
- Bydd unrhyw blentyn sy’n dod wedi ei wisgo fel tywysog neu dywysoges yn cael gwobr gan Gyngor Tref y Rhyl
- Bydd Rheilffordd Fach y Rhyl yn gwisgo un o’i threnau gyda baneri coch, gwyn a glas i nodi’r achlysur. Rhedeg o 10.30am hyd at 4pm. Prisiau arferol
- Bydd 4 The Community yn Eglwys y Santes Fair, Ffordd Wellington, y Rhyl yn cynnal gemau stryd am ddim i’r plant o 11am ar y diwrnod

Caiff manylion pellach y digwyddiad eu rhyddhau ar sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd Facebook a Twitter Cyngor Tref y Rhyl (@RhylTownCouncil) dros yr ychydig wythnosau nesaf.

Diwedd

25 Ebrill 2016

